# TERMS OF USE

This resource is **copyright ©ELSA Support**

All free products on this site are subject to a **Creative Commons copyright licence**. You are free to copy, distribute, display, and perform the work under the following conditions:

Attribution: You must give the original author credit **(That is ©ELSA Support)**
Non-Commercial: You may **not** use this work for commercial purposes **(You cannot sell this work or use it for financial gain)**
No Derivative Works: You may **not** alter, transform, or build upon this work **(You must not change our work in anyway)**

**Thank you for abiding by copyright law.**

elsa support

www.elsa-support.co.uk

Some of the clipart used in making this resource is licensed to us from the following:

## Other resources you will LOVE!

Please click the image to take you to this related and relevant resource:




www.elsa-support.co.uk


# NÔL I'R YSGOL

Stori am ddychwelyd i'r ysgol



By
Debbie Palphreyman

*Translated by: Elin Adams*



ELSA support

Rydych chi wedi bod yn Archarwyr ac wedi aros adref.



Arhosoch chi yn y tŷ arwahan i siopa hanfodol ac ymarfer corff dyddiol.

Gwnaethoch chi eich holl ddysgu adref.

Fe gadwoch chi at y rheolau "ymbellhau cymdeithasol" gan aros 2 fetr i ffwrdd o unrhyw un arwahan i unrhyw un yn eich tŷ.





Buoch chi'n tisian i mewn i'ch penelin.

Buoch chi'n golchi'ch dwylo am ugain eiliad neu wrth gyfri eliffantod - 1 eliffant, 2 eliffant, 3 eliffant a.y.y.b.

Ddefnyddioch chi hancesi papur i lanhau eich trwyn ac fe roddoch chi nhw yn y bin!

Aethoch chi hyd yn oed heb weld eich ffrindiau a theulu nad sy'n byw gyda chi.







www.elsa-support.co.uk

Y NEWYDDION DA YW….

Mae gan LAI o bobl goronafeirws nawr!


Fe wnaethoch chi gamp ANHYGOEL!

Fe ddylech chi deimlo'n falch iawn o'ch hunain am helpu yn y frwydr yn erbyn Coronafeirws!

Rydych yn wir archarwyr!

Rydych yn haeddu cymeradwyaeth! Rhowch glap i'ch hunain nawr!

**Gwaith anhygoel!**



Mae Llywodraeth Cymru am i bethau ddechrau fynd nôl i'r arfer. Mae ganddyn nhw gynllun. Cynllun yw rhestr o bethau sydd angen cael eu gwneud er mwyn cadw'n ddiogel.

**RHAID I BAWB ddilyn y cynllun.**



Cynllun pwysig y llywodraeth

1.

2.

3.

4.

5.



I gael pethau yn ôl fel oeddent o'r blaen mae'n rhaid gwneud ychydig ar y tro.

Falle eich bod wedi sylwi eich bod yn mynd allan ychydig yn fwy nawr? Falle eich bod wedi sylwi bod Mam neu Dad yn mynd i'r gwaith eto nawr? Falle eich bod wedi sylwi eich bod yn cwrdd â phobl eraill tu allan i'ch tŷ ond gan gadw 2 fetr i ffwrdd o'ch gilydd?

Mae'n bwysig fod pawb yn dilyn y cyllun. Dydyn ni ddim eisiau i LAWER o bobl fod yn sâl eto. Os nad yw pobl yn dilyn y cynllun gall hynny ddigwydd.

Cynllun pwysig y llywodraeth


1. Gall bobl fynd allan yn fwy rheolaidd. Gall rhai rhieni fynd i'r gwaith. Gall bobl weld pobl eraill tu allan
2.
3.
4.
5.



Rhif 2 ar y cynllun ydy…

# PLANT YN MYND NÔL I'R YSGOL!

Our very important scientists think it is safe now for SOME kids to go back to school. They can't ALL go back at once. That would be too much because remember a plan is about doing a little bit at a time.







www.elsa-support.co.uk

Sut mae hynny'n teimlo?





Mae'n bosib eich bod yn teimlo yn bryderus, gyffrous, hapus, drist, ofnus, wedi synnu, neu rywbeth arall?

Ond peidiwch â phoeni! Mae hynny'n iawn!
Mae'r teimladau yma i gyd yn iawn. Os oes gennych deimladau mawr bydd bob amser rhywun yn yr ysgol ar gael i chi drafod eich teimladau ac i wneud i chi deimlo'n well ac yn ddiogel. Mae eich athrawon yn dda iawn yn gwneud hynny. Maen nhw'n gallu gwneud i chi deimlo'n well os ydych yn siarad gyda nhw.












www.elsa-support.co.uk

Pan fyddwch yn yr ysgol bydd rhai pethau yr un peth a bydd rhai pethau yn wahanol.
Bydd eich athrawon yn dweud mwy wrthych chi am y pethau yma. Maen nhw'n gweithio'n galed i gadw yr ysgol yn DDIOGEL.

Dyma rai pethau fydd yn wahanol.

Byddwch yn cael eich dysgu mewn swigod – "bubbles" (ddim swigod rydych yn chwythu tu allan) – mae hyn yn golygu grŵpiau o blant. Rydych wedi cael eich dysgu mewn grŵpiau o'r blaen felly dydy hyn ddim mor wahanol â HYNNY.

Byddwch yn dysgu ac yn chwarae yn yr ysgol gyda grŵp o blant ac un neu ddau o oedolion o'r ysgol. Falle mai eich athrawon fydd rhain ond falle athrawon eraill fydd rhain. Hwn fydd eich swigen!
Bydd rhai o'ch ffrindiau mewn swigod eraill ac felly ni fyddwch yn gallu chwarae gyda nhw. Efallai bydd hyn yn eich gwneud chi'n drist ond fydd e ddim am byth! Gallwch chi dal chwifio atynt a gwenu arnyn nhw.




www.elsa-support.co.uk

Bydd eich athrawon yn dweud MWY wrthych am beth fydd yn wahanol yn yr ysgol.
Bydd y pethau y gwnaethoch chi adref i gadw'n ddiogel yn debyg iawn i beth wnewch chi yn yr ysgol.
Mae eich athrawon wedi trefnu llawer o weithgareddau cyffrous i chi wneud yn yr ysgol.

A phwysicaf oll byddwch yn cael HWYL!





www.elsa-support.co.uk

Felly cofiwch rydych yn nhîm yr Archarwyr ac rydych yn mynd i barhau i frwydro yn erbyn y feirws yma!




Byddwch yn falch o'ch hymdrechion.

Rydych wedi gwneud gwaith anhygoel hyd yn hyn!

Mae'r staff yn yr ysgol yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld chi eto a'ch croesawu chi nôl i'r ysgol. Maen nhw wedi eich COLLI CHI cymaint!

Welwn ni chi cyn bo hir!





www.elsa-support.co.uk